Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

**Mae gan Wasanaeth Tân De Cymru ddyletswydd statudol i ddarparu darpariaeth tân ac achub mewn argyfwng i gymunedau De Cymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cyfnodau lle y gallant fod yn ostyngiad sylweddol mewn staff amser cyflawn ac ar alwad o blith y gweithwyr oherwydd pandemig ffliw, gweithredu diwydiannol neu achosion tebyg eraill. Er mwyn mynd i'r afael â'r angen hwn, mae'r Gwasanaeth wedi datblygu Cynllun Rheoli Parhad Busnes (CRhPB) sydd wedi arwain at greu Llu Cynorthwyol Wrth Gefn sy'n darparu'r hydwythder mewn amser o angen.**

## Dyletswyddau a Chyfrifoldebau – Ymladdwyr Tân Cynorthwyol Wrth Gefn

Prif nod y Llu Cynorthwyol Wrth Gefn yw diogelu ac arbed pobl ac eiddo rhag tân a pheryglon eraill yn y modd mwyaf cymwys ac effeithiol i'r safon uchaf posibl o ran gofal ac ansawdd os bydd gostyngiad sylweddol yn y gwasanaeth arferol

| | |
|---|---|
| HYFFORDDIANT<br>Yn dilyn hyfforddiant cychwynnol sy'n cynnwys sgiliau craidd Ymladdwyr tân a thechnegau Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd, mae ymladdwyr tân y Llu Cynorthwyol wrth Gefn yn gwneud rhaglen hyfforddi barhaus. Mae'n ofynnol i bersonél y Llu Cynorthwyol Wrth Gefn fynychu diwrnodau hyfforddi chwarterol er mwyn cynnal cymhwysedd sgiliau craidd, a hyfforddiant datblygu pellach yn ôl yr angen i wella sgiliau personol a lefelau gwybodaeth. Wrth iddynt gael eu sefydlu yn ymladdwyr tân yn y Llu Cynorthwyol bydd personél yn gwneud hyfforddiant offer anadlu cychwynnol (O.A.). Pwyslais y rhaglen hyfforddi bydd gwella parhaus a gwella sgiliau bywyd. | YMGYSYLLTU Â CHYMUNEDAU<br>Fel aelod o'r Llu Cynorthwyol Wrth Gefn, ynghyd â' meithrin sgiliau a galluoedd newydd, mae'r unigolyn yn gallu ymgymryd â chyfleoedd newydd yn y gymuned ac o fewn y brif alwedigaeth. Tra byddant ar ddyletswydd, byddai angen i aelodau'r Llu Cynorthwyol Wrth gefn sefydlu a chynnal hyder aelodau o'r cyhoedd wrth gynnal perthynas gadarn ag asiantaethau partner. Yn ogystal â bod yn sensitif i anghenion pobl eraill o ran materion yn ymwneud â thegwch ac urddas, mae'n ofynnol i'r unigolion hyn gynnal ymagwedd hyblyg at bob dyletswydd. |
| CYFARPAR<br>Fel rhan o'r rhaglen hyfforddi bydd aelodau o'r Llu Cynorthwyol Wrth Gefn yn gadw'n gyfredol ag offer diffodd tân a chyfarpar argyfwng gan gynorthwyo â'r gwaith cynnal a chadw, glanhau a phrofi yn ôl y gofyn yn unol â safonau a gweithdrefnau cymeradwy. | GWEINYDDU<br>Cwblhau gwaith papur sylfaenol a gweinyddu arferol, gan gynnwys cofnodi gwybodaeth yn ôl y gofyn. |

| | |
|---|---|
| DAEARYDDIAETH LEOL<br>Lleolir y Llu Cynorthwyol Wrth Gefn yng Ngorsaf Dân Abercarn, Ffordd Darren, Ystâd Ddiwydiannol Tywysog Cymru, Abercarn, Casnewydd. NP11 5AR.<br>Pe byddai angen gweithredu, lle byddai'n bosibl o safbwynt ymarferol, byddai aelodau o'r Llu Cynorthwyol Wrth Gefn yn cael eu defnyddio mewn ardaloedd lle maent yn adnabod y strydoedd, y ffyrdd a'r adeiladau lleol a leolir o fewn ardal ymateb Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Bydd hyn yn galluogi aelodau'r Llu Cynorthwyol Wrth Gefn i fod yn gyfarwydd â rhai o'r peryglon lleol, y peryglon posibl a'r cyflenwadau dŵr sydd i'w cael o fewn yr ardal y meant yn gweithredu ynddi. | FFITRWYDD A GLENDID PERSONOL<br>Mae angen cynnal lefel o ffitrwydd corfforol a meddygol sy'n angenrheidiol i gyflawni dyletswyddau Ymladdwr Tân. Mae angen cynnal lefel uchel o ran ymddangosiad personol, hylendid a glendid o ran gwisg yn unol â gwasanaeth disgybledig |
| ARGYFYNGAU<br>Wrth gael ei weithredu, byddai'r Llu Cynorthwyol Wrth Gefn yn cael ei leoli ar draws yr ardal Gwasanaeth o dan reolaeth Swyddogion Tân profiadol a fyddai'n rhoi cyfarwyddyd a chyfeiriadau cyn, ar ôl iddynt gyrraedd yn y digwyddiad ac wrth ddelio â'r digwyddiad. Mae'n bosibl y bydd gofyn mynychu amrywiaeth eang o ddigwyddiadau os a phryd y bydd y Llu Cynorthwyol Wrth Gefn yn cael ei weithredu, gan gynnwys ymateb brys a cheisiadau am gymorth. Mae'n ddyletswydd ar aelodau'r Llu Cynorthwyol Wrth Gefn i ymdrin ag argyfyngau yn ôl cyfarwyddyd mewn modd proffesiynol, gan weithio'n effeithiol ac yn effeithlon fel aelod o dîm disgybledig a allai fod yn asiantaethau partner neu'n wasanaethau brys eraill. | IECHYD A DIOGELWCH<br>Adnabod materion iechyd a diogelwch yn y gwaith ac ymdrin â hwy er mwyn lleihau neu ddileu'r graddau o berygl neu risg. Sicrhau eich diogelwch personol a diogelwch pobl eraill bob amser. |